

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

**GWEITHDREFN GOHIRIO
ASTUDIAETHAU (RHAGLENNI
A ADDYSGIR)**

Cyflwyniad	3
Absenoldeb	3
Cais i Ohirio Astudiaethau	3
Y Broses Benderfynu	4
Cyfyngiadau ar Wneud Cais am Ohirio Astudiaethau	5
Cadarnhau'r Penderfyniad	5
Eich Hawliau yn ystod y Cyfnod Gohirio	6
Gweithredu gan y Brifysgol yn ystod Gohirio Astudiaethau	7
Gwneud Cais am Adolygiad	7

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r weithdrefn hon yn gymwys i bob myfyriwr ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir (gan gynnwys MRes a chydrannau a addysgir doethuriaethau proffesiynol) a manylion am yr hyn mae'n rhaid i chi ei wneud i hysbysu'r Brifysgol o unrhyw absenoldeb oddi wrth eich astudiaethau.
- 1.2. Os ydych chi'n fyfyriwr anabl ac angen addasiadau i'r weithdrefn hon i allu ymgysylltu'n llawn â'r broses, cysylltwch â [Cofrestrydd Academaidd](#) i nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i'ch helpu i ymgysylltu.

2. Absenoldeb

- 2.1 Os ydych chi'n absennol am gyfnod byr, llai na 14 diwrnod, dylech hysbysu eich Ysgol o'ch absenoldeb a'r rheswm amdano.
- 2.2 Os ydych am fod yn absennol am **14 diwrnod neu ragor**, dylech gyflwyno cais i ohirio eich astudiaethau.

3. Cais i Ohirio Astudiaethau

- 3.1. Efallai y bydd angen i chi ohirio eich astudiaethau am gyfnod dros dro gyda'r bwriad o ddychwelyd rywbryd yn y dyfodol.
- 3.2. Os yw eich rheswm am y gohirio'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu absenoldeb rhiant, dylech yn gyntaf ddarllen y polisi a'r arweiniad ar Gynorthwyo Myfyrwyr Bechiog a Myfyrwyr sy'n dod yn Rhieni.
- 3.3. Os ydych chi'n fyfyriwr allanol - yn ailadrodd rhaglen neu fodiwl(au) yn allanol - ni fydd yn rhaid i chi gyflwyno cais i ohirio eich astudiaethau, ond dylech roi gwybod am unrhyw amgylchiadau esgusodol (darllenwch y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol) os na fyddwch yn gallu cymryd asesiadau.
- 3.4. Os ydych yn absennol am 14 diwrnod neu ragor, dylech gyflwyno cais i ohirio eich astudiaethau. Ni ddylai cyfnod y gohirio fod yn fwy na 12 mis.
- 3.5. Fel eithriad, os byddwch yn absennol am 14 diwrnod neu fwy a'ch bod wedi hysbysu eich Ysgol o'ch amgylchiadau ond nad ydych yn gallu cyflwyno cais i ohirio eich astudiaethau, gall Pennaeth yr Ysgol wneud cais i ohirio eich astudiaethau ar eich rhan.
- 3.6. Fe'ch cynghorir i gael gair â'ch Tiwtor Personol i drafod yr amgylchiadau sy'n gyfrifol am yr angen i ohirio.
- 3.7. Pan fyddwch yn gwneud cais i ohirio eich astudiaethau, dylech sicrhau bod pob adran o'r ffurflen wedi'u cwblhau a bod tystiolaeth briodol yn cael ei chyflwyno lle bo'n berthnasol. Pennaeth yr Ysgol berthnasol, neu enwebai, fydd yn ystyried ceisiadau wedi'u cwblhau i ohirio astudiaethau.
- 3.8. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd Pennaeth yr Ysgol yn cadarnhau amser cyfleus i ddychwelyd at eich astudiaethau. Efallai na fydd yn bosibl i

chi i ailymuno ar unwaith ar ôl eich cyfnod o absenoldeb ac efallai y bydd yn rhaid i chi aros tan y flwyddyn academaidd ganlynol.

3.9. Pan fydd eich ymyrraeth yn cael ei gadarnhau, bydd yn dechrau ar naill ai'r dyddiad y gwnaethoch gyflwyno eich cais neu ar y dyddiad cychwyn y gwnaethoch ofyn amdano yn eich cais, pa un bynnag yw'r diweddaraf. Gellir defnyddio dyddiad eich absenoldeb cyntaf a gofnodwyd, i gyfrifo unrhyw addasiad i'ch ffioedd dysgu. Ni ellir ôl-ddyddio ar draws ceisiadau astudio a'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn berthnasol am y ymyrraeth yn SIMS yw'r dyddiad cynharaf y gall yr IOS ddechrau..

3.10. Mae'r rhesymau dros wneud cais i ohirio astudiaethau fel a ganlyn:

- Salwch, pryderon ynghylch eich iechyd meddyliol neu gorfforol.
- Absenoldeb mamolaeth/tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir/mabwysiadu.
- Swydd Sabothol - gellir cymeradwyo cais i ohirio astudiaethau i fyfyrwr sydd wedi'u hthol i swydd sabothol yn Undeb y Myfyrwr.
- Profiad gwaith, lleoliad proffesiynol heb gredyd, neu interniaeth. **Ni chaniateir** gohirio astudiaethau i fyfyrwr sy'n dilyn rhaglen gyda chyfleoedd dysgu lleoliad integredig proffesiynol er mwyn cael rhagor o brofiad gwaith, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. **Ni all** myfyrwr yn y DU ar fisa Llwybr Myfyrwr gyflwyno cais ar y ddaear hon.
- Ymrwymadau proffesiynol eithriadol (yn gymwys i fyfyrwr rhan amser yn unig) os yw myfyriwr ar raglen rhan amser, dysgu o bell neu gyfun, a lle mae ganddynt ymrwymadau gwaith ychwanegol nad oedd wedi'u rhagweld sy'n eu hatal rhag astudio.
- Astudio dramor: **ni** chaniateir i fyfyrwr sy'n dilyn rhaglenni gyda chyfleoedd astudio integredig dramor gael gohirio eu hastudiaethau er mwyn cael rhagor o gyfleoedd i astudio dramor, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.
- Sail dosturiol: o ganlyniad o amgylchiadau personol, teuluol neu ddomestig.
- Caledi ariannol eithriadol.
- Sail academaidd, pan fydd hyn er lles gorau'r myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn dychwelyd i astudio ar adeg briodol yn y flwyddyn academaidd.

4. Y Broses Benderfynu

4.1. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn ystyried:

- y rhesymau am eich cais;
- parhad a chyfredolrwydd cynnwys y rhaglen;
- sut y byddwch yn cael eich asesu ar ôl dychwelyd at eich astudiaethau ar gyfer unrhyw asesiadau heb eu cwblhau;
- dyddiad dychwelyd at eich astudiaethau;
- unrhyw gyfnodau eraill o ohirio y cytunwyd arnynt yn flaenorol ar eich cyfer yn yr un rhaglen astudio.

4.2. Os caiff eich cais ei gymeradwyo, gall eich Ysgol ofyn i chi gydymffurfio ag amodau penodol cyn i chi dychwelyd i astudio, e.e. tystiolaeth eich bod yn

ddigon da i ddychwelyd i astudio. Mae cymorth a chyngor pellach ar gael gan y tîm Cymorth a Llesiant Myfyrwyr:

- 4.3. Os caiff eich cais ei wrthod neu os bydd hyd y gohirio'n wahanol i'r hyn y gofynnwyd amdano, byddwch yn cael eich hysbysu am y rheswm dros y penderfyniad.
- 4.4. Yn ystod eich rhaglen, caniateir i chi gael cyfnod o ohirio astudiaethau hyd at 12 mis. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd gymeradwyo cyfnodau hwy na fydd eu cyfanswm yn fwy na 24 mis, ar yr amod bod y cais yn cael ei gefnogi gan Bennaeth yr Ysgol yn y lle cyntaf. Os byddwch yn cael sawl cyfnod tymor byr o ohirio astudiaethau, bydd y cyfanswm yn cael ei ystyried ac ni chaniateir iddo fod yn hwy na'r terfynau a nodwyd uchod.
- 4.5. Bydd cyfnodau o ohirio astudiaethau, y rhesymau am y gohirio, ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth ddychwelyd i astudio'n cael eu cofnodi'n gyfrinachol ar eich cofnod myfyriwr.

5. Cyfyngiadau ar Wneud Cais am Ohirio Astudiaethau

- 5.1. Os byddwch yn profi problemau annisgwyl yn ystod cyfnod arholiad, dylech defnyddio'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd ymyrraeth ar geisiadau astudio yn cael eu hystyried yn ystod cyfnodau arholi ffurfiol.
- 5.2. Os ydych ar fisa Llwybr Myfyrwyr ac yn gwneud cais am ymyrraeth ar astudiaeth, efallai y bydd angen i chi ddychwelyd i'ch mamwlad ac ailymgeisio am fisa newydd cyn i chi ddychwelyd i ddyddiad astudio. Rhaid i'r Brifysgol hysbysu UKVI os byddwch yn gohirio eich astudiaethau. Fe'ch cynghorir i gael cyngor gan y tîm Cymorth a Llesiant Myfyrwyr cyn gwneud cais i ohirio astudiaethau.

6. Cadarnhau'r Penderfyniad

- 6.1. Cewch eich hysbysu o benderfyniad Pennaeth yr Ysgol o ganlyniad eich cais o fewn 14 diwrnod ar ôl ei gyflwyno. Os ydych chi'n gwneud cais i ohirio astudiaethau sy'n golygu y byddwch yn gohirio eich rhaglen am fwy na chyfanswm o 12 mis, gall gymryd mwy na 14 diwrnod i'ch hysbysu o ganlyniad eich cais.
- 6.2. Efallai y cewch eich argymhell i drefnu apwyntiad gyda'r tîm [Cymorth a Llesiant Myfyrwyr](#) cyn dychwelwch i astudio os yw'r rheswm dros y gohirio'n ymwneud â'ch iechyd a'ch llesiant.
- 6.3. Bydd eich corff cyllido/noddwr/UKVI yn cael ei hysbysu o hyd y gohiriad ac unrhyw addasiad cysylltiedig/ad-daliad o ffioedd dysgu a all fod yn ddyledus.

7. Eich Hawliau yn ystod y Cyfnod Gohirio

- 7.1. Yn ystod cyfnod gohirio eich astudiaethau, byddwch yn parhau wedi'ch cofrestru ar eich rhaglen astudio a bydd eich cofnod myfyriwr yn cael ei ddiweddarau i ddangos nad ydych yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'ch rhaglen am gyfnod y gohiriad.
- 7.2. Yn ystod cyfnod gohirio eich astudiaethau, caniateir i chi:
- ddefnyddio eich cyfrif TG yn y Brifysgol (gan gynnwys e-bost a SIMS),
 - mynediad cyfyngedig at [wasanaethau Cymorth a Llesiant Myfyrywr](#),
 - mynediad at y [Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd](#),
 - mynediad cyhoeddus i'r llyfrgelloedd ac adeiladau'r Brifysgol.
- 7.3. Yn ystod cyfnod gohirio eich astudiaethau, **ni** chaniateir i chi i:
- fynychu sesiynau'r rhaglen, gan gynnwys darlithoedd, seminarau, sesiynau labordy, a chyfarfodydd goruchwyllo;
 - defnyddio deunyddiau dysgu drwy Dysgu Canolog;
 - cymryd rhan mewn asesiadau ffurfiol gan gynnwys sefyll arholiadau ffurfiol neu gyflwyno gwaith cwrs;
 - yn ddibynnol ar hyd y gohiriad, aros yn llety'r Brifysgol; gofynnwch am gyngor gan Wasanaethau Preswyl cyn gwneud cais. Bydd eich contract yn cael ei addasu heb gosb a byddwch yn cael rhybudd i adael yn unol â'ch contract llety. Bydd y tîm [Cymorth a Llesiant Myfyrywr](#) yn gallu eich cynghori ar lety arall os bydd angen help arnoch.
- 7.4. Noder:
- **Cerdyn myfyrywr:** os bydd eich cerdyn yn dod i ben yn ystod cyfnod gohirio eich astudiaethau, ni fyddwch yn cael cerdyn arall nes byddwch wedi cwblhau'r broses gofrestru i ailgychwyn eich astudiaethau.
 - **Trawsgrifiad:** byddwch yn cael penderfyniad y Bwrdd Arholiad ar unrhyw asesiadau a gwblhawyd, lle mae cydrannau asesu modiwl cyfan wedi'u cwblhau, yn unol ag amserlenni arferol rhyddhau canlyniadau, oni bai bod rheswm eithriadol i gadw canlyniadau'n ôl.
 - **Tystysgrifau'r Dreth Gyngor:** Byddwch yn cadw mynediad at holl dystysgrifau'r Dreth Gyngor a gyflwynwyd i chi cyn i chi cychwyn gohiriad. Bydd gan rai myfyrywr sydd wedi gohirio eu hastudiaethau hawl i gael tystysgrif newydd, ond mae hyn yn ddibynnol ar reoliadau'r Dreth Gyngor sydd mewn grym ar yr adeg berthnasol.
- 7.5. Os ydych yn cael eich cyflogi gan y Brifysgol ac yn gohirio oherwydd salwch, bydd yr wybodaeth a gyflwynir yn cael ei hystyried gan Adnoddau Dynol hefyd mewn cysylltiad â'ch contract cyflogi.
- 7.6. Ni fyddwch yn cael gwybodaeth gan y Brifysgol am gyfleoedd cyflogaeth na gwirfoddoli yn ystod eich gohiriad.

8. Gweithredu gan y Brifysgol yn ystod Gohirio Astudiaethau

- 8.1. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldebau statudol a chyfreithiol i hysbysu nifer o gyrff eich bod yn gohirio eich astudiaethau. Mae enghreifftiau o'r gyrff hyn yn cynnwys:
 - Cyrff noddi neu gyllido;
 - Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI);
 - Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a chyrff statudol eraill.
- 8.2. Ni fydd y Brifysgol yn codi am eich ffioedd dysgu yn ystod cyfnod gohirio eich astudiaethau, yn unol â'r Polisi Ffioedd Dysgu.
- 8.3. Pan fyddwch yn ailgychwyn eich astudiaethau, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd dysgu am unrhyw gyfnodau astudio y byddwch yn eu hailadrodd neu wedi'u colli drwy ohirio eich astudiaethau.
- 8.4. Bydd y tîm [Cymorth a Llesiant Myfyrwyr](#) yn gallu eich cyngori ar oblygiadau ariannol gohirio eich astudiaethau.

9. Gwneud Cais am Adolygiad

- 9.1. Os bydd eich cais i ohirio eich astudiaethau'n cael ei wrthod neu os ydych yn anghytuno â'r dyddiad dychwelyd, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad yn unol â [Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol](#).